

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYHOEDDIAD O FWRIAD I BEIDIO Â PHARATOI DATGANIAD AMGYLCHEDDOL RHEOLIAD 5 RHEOLIADAU ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL (GWAITH GWELLA DRAENIO TIR) 1999

GWAITH GWELLA MEWN PERTHYNAS Â CYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD CWMAMAN

MAE CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF ("Y Cyngor") YN HYSBYSU fel a ganlyn yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999:

1. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwaith gwella draenio tir ar y gwrs dŵr cyffredin (Nant Aman Fach), sy'n lleoli i'r Gogledd o Heol Glanaman, a i'r Gorllewin o'r cefnffordd Brynhyfryd. Bwriad y gwaith yw i cynyddu'r uchder y cwrs Ddŵr cyffredin er mwyn hwyluso'r cyfaint ddŵr sy'n llifo'r drwy 'r strwythur cwlfwr. Bydd hyn yn wella effeithlonrwydd hydrolig y cilfachau/sianeli cwlfwr. Bydd y gwelliannau yma'n lleihau'r perygl o lifogydd glaw mewn ardal lle yr ystyrir bod risg uchel o lifogydd.
2. Dyw'r Cyngor ddim yn bwriadu paratoi datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith gwella arfaethedig. Gan gyfeirio at Atodlen 2 o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, yn ogystal â nodweddion y gwaith gwella, lleoliad y gwaith gwella a math a nodweddion yr effaith bosibl, fydd y gwaith ddim yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.
3. Bydd y mesurau lliniaru ac ataliol canlynol yn cael eu gweithredu:
 - Rheoli adeiladu i liniaru effeithiau sŵn, dirgryniad a llwch;
 - Rheoli adeiladu i liniaru'r amser y mae gwaith yn gweithredu o fewn Cwrs Dŵr Cyffredin;
 - Rheoli Adeiladu i liniaru'r potensial bod llygredd yn effeithio ar y rhwydweithiau cwrs dŵr arferol;
 - Cydymffurfio â gofynion statudol ychwanegol sy'n ymwneud â Chaniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991) a Chymeradwyo Draenio Cynaliadwy (Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010).
4. Mae disgrifiad o leoliad, natur a maint y gwaith gwella yn Rhan I o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma.
5. Os yw rhywun yn dymuno gwneud sylwadau ysgrifenedig am effeithiau amgylcheddol tebygol y gwaith gwella arfaethedig, mae modd iddo wneud hynny drwy eu hanfon at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng-flaen yn Nhŷ

Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU neu drwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk o fewn 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad yma.

6. Mae modd cael yr wybodaeth ychwanegol am y gwaith gwella yn Rhan II o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU trwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

ATODLEN

Rhan I – manylion am y gwaith gwella


Lleoliad y gwaith gwella: Cyrs Ddŵr cyffredin Nant Aman Fach, sy'n lleoli i'r Gogledd o Heol Glanaman, a i'r Gorllewin o'r cefnffordd Brynhyfryd. (OSGR 299623, 199556).

Natur a maint y gwaith gwella: Yr holl waith parhaol a'r gwaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- i. Gwaith I cynyddu'r uchder y cwrs Ddŵr cyffredin
- ii. Adfer pob ardal y mae'r gwaith uchod yn effeithio arno.

Rhan II – Gwybodaeth ychwanegol

Mae lleoliadau'r gwaith arfaethedig i'w gweld ar Luniau Rhifau:
GC4038-RED-05-PH1-DR-C-0508-P01 a GC4038-RED-05-PH1-DR-C-0507-P01

A handwritten signature in black ink that reads "A. S. Wilkins". The signature is written in a cursive style and is underlined with a long, sweeping stroke that extends to the right.

15 Mehefin 2023.

Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol